Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Manyleb y modiwl

**Ni ellir rheoli'r ddogfen hon ar ôl iddi gael ei hargraffu. Defnyddiwch Gyfeiriadur y Modiwl i gael y fersiwn ddiweddaraf drwy glicio ar y ddolen ganlynol: Cyfeiriadur y modiwl**

| | |
|---|---|
| **Cod y Modiwl** | PSY636 |
| **Teitl y Modiwl** | Dulliau Ymchwil 4 |
| **Lefel** | 6 |
| **Gwerth credyddol** | 20 |
| **Cyfadran** | Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd |
| **Cod HECoS** | 100497 |
| **Cod Cost** | GAPS |
| **Modiwl rhagofyniadol** | Dulliau Ymchwil 3 (BSc (Anrh) Seicoleg a BSc (Anrh) Seicoleg gyda Blwyddyn Sylfaen yn unig). |

## Y rhaglenni y cynigir y modiwl ynddynt

| **Teitl y Rhaglen** | **Craidd/Opsiynol/Sefyll ar ei hyn** |
|---|---|
| BSc (Anrh) Seicoleg | Craidd |
| BSc (Anrh) Seicoleg gyda Blwyddyn Sylfaen | Craidd |
| BSc (Anrh) Seicoleg Droseddol | Craidd |

## Crynodeb o Oriau'r Modiwl

| | |
|---|---|
| Oriau dysgu ac addysgu | 24 awr |
| Cymorth tiwtor ar leoliad | 0 awr |
| Dysgu dan oruchwyliaeth e.e. dosbarthiadau ymarferol, gweithdai | 0 awr |
| Goruchwyliaeth prosiect (prosiectiau lefel 6 a modiwlau traethawd hir yn unig) | 0 awr |
| **Active learning and teaching hours total** | **24 awr** |
| Oriau lleoliad gwaith | 0 awr |
| Astudio annibynnol dan arweiniad | 176 awr |
| **Hyd y modiwl (cyfanswm oriau)** | 200 awr |

## Nodau'r modiwl

Bydd y modiwl hwn yn parhau i adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd yn ystod y modiwlau dulliau ymchwil blaenorol ar lefel 4 a 5. Bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth feirniadol o agweddau pellach ar ddadansoddi data o fewn ymchwil seicolegol.
Bydd myfyrwyr yn datblygu eu gwybodaeth ymarferol gyfredol ynghylch y gwahanol ddulliau

o ddadansoddi data, gan ystyried methodolegau ansoddol a meintiol fel ei gilydd. Bydd myfyrwyr yn ennill sgiliau dadansoddi data ymarferol ac yn datblygu hyder o ran gwybod pa ddull dadansoddi sy'n briodol o ystyried y cwestiwn ymchwil a osodir. Bydd y modiwl yn galluogi myfyrwyr i ennill gwerthfawrogiad o gryfderau a chyfyngiadau'r gwahanol ddulliau hyn, gan gynnwys dulliau parametrig ac amharametrig. Bydd y modiwl yn galluogi myfyrwyr i ddefnyddio'r wybodaeth a enillwyd eisoes o fodiwlau dulliau ymchwil blaenorol er mwyn gwerthuso'n feirniadol seiliau athronyddol dulliau ymchwil, yn ogystal â'r gwahanol ddulliau a methodolegau a ddefnyddir o fewn ymchwil.

## Deiliannau Dysgu'r Modiwl

Ar ddiwedd y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn gallu:

| | |
|---|---|
| **1** | Gwerthuso'n feirniadol seiliau athronyddol dulliau ymchwil mewn seicoleg |
| **2** | Gwerthuso'n feirniadol y defnydd a wneir o wahanol ddulliau a methodolegau ar gyfer cwestiynau penodol a meysydd ymarfer, a chymhwyso hyn i erthyglau ymchwil. |
| **3** | Gwerthuso dehongliad canfyddiadau a goblygiadau dadansoddi data, gan gyfuno'r dehongliad hwn gyda llenyddiaeth berthnasol. |
| **4** | Dadansoddi a dehongli data gan ddefnyddio'r dulliau meintiol priodol |
| **5** | Dadansoddi a dehongli data gan ddefnyddio'r dulliau ansoddol priodol |

## Asesiad

Tasgau Asesu Dangosol::

Mae'r adran hon yn amlinellu'r math o dasg asesu y disgwylir i'r myfyriwr ei chwblhau fel rhan o'r modiwl hwn. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn y llawlyfr modiwl ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol.

Aseiniad 1:

Aseiniad Ysgrifenedig – Gwerthfawrogiad beirniadol 2000 gair o erthygl cyfnodolyn yn canolbwyntio ar fethodoleg a dull.

Aseiniad 2:

Portffolio – Bydd gofyn i fyfyrwyr weithio drwy bortffolio o dasgau a fydd yn arddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddulliau dadansoddi data ansoddol a meintiol fel ei gilydd a sgiliau ymchwil ymarferol.

| Rhif asesiad | Deiliannau Dysgu I'w bodloni | Math o asesiad | Hyd/Nifer Geiriau | Pwysoli (%) | Asesiad amgen, os yw'n berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 1, 2, 3 | Written Assignment | 2,000 gair | 50 | N/A |
| 2 | 4, 5 | Portfolio | 2,000 gair | 50 | N/A |

## Rhanddirymiadau

Dim.

## Strategaethau Dysgu ac Addysgu

Bydd ystod o wahanol strategaethau dysgu ac addysgu yn cael eu defnyddio yn y modiwl hwn, gan gynnwys darlithoedd, seminarau, gweithgareddau grŵp ac unigol, dysgu wedi'i gyfarwyddo a'i hunan-gyfarwyddo, a thiwtorialau. Cynhwysir cynnwys anghydamserol ar-lein sydd wedi'i recordio ymlaen llaw yn rhan o'r modiwl a bydd hwn yn sail i'r sesiynau cydamserol. Bydd hyn yn caniatáu i fyfyrwyr gael amser i adfyfyrio ar eu gwybodaeth a'i datblygu ymhellach cyn atgyfnerthu'r dysgu drwy weithdai grŵp a/neu seminarau. Bydd sesiynau gweithdy/seminar yn golygu tasgau ymarferol, sy'n cynnwys amrywiol fathau o ddulliau ymchwil a dadansoddi data (ansoddol a meintiol fel ei gilydd).
Bydd myfyrwyr yn ymarfer ac yn cymhwyso sgiliau ymchwil ymarferol mewn tasgau unigol a grŵp.

Mae'r holl ddulliau addysgu a dysgu yn cael eu cefnogi gan amgylchedd dysgu rhithiol y Brifysgol, Moodle, lle bydd myfyrwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth eglur ac amserol er mwyn cefnogi gyda chyflwyno cynnwys megis fideos, dolenni at wybodaeth berthnasol ar-lein, fforymau trafod a darlithoedd sydd wedi'u recordio ymlaen llaw.

Mae Fframwaith Dysgu Gweithredol y Brifysgol (ALF) wedi ei fewnosod o fewn y modiwl er mwyn cyflawni'r hygyrchedd, cynhwysiant a hyblygrwydd gorau o safbwynt addysgu a dysgu. Mae hyn yn unol ag egwyddorion y Dyluniad Cyffredinol ar gyfer Dysgu (UDL). Defnyddir cyfuniad o ddysgu sy'n cyfuno dysgu cydamserol ac anghydamserol sydd wedi'u galluogi'n ddigidol gyda'r defnydd gorau o gyfleoedd ar-lein a lleoedd a chyfleusterau ar y campws.

## Elfennau Cymraeg

Gall myfyrwyr gyflwyno eu gwaith, cael mynediad at ffurflenni, adnoddau, gohebiaeth e-bost, cefnogaeth lleoliad a thiwtorialau personol yn Gymraeg.

## Amlinelliad o'r Maes Llafur Dangosol

- Rheoli Ymchwil
- Ystyriaethau ychwanegol ar gyfer ymchwil ansoddol
- Ystyriaethau ychwanegol ar gyfer ymchwil meintiol

- Profiad o gasglu data sy'n digwydd yn naturiol a chynnal dadansoddiad priodol
- Dadansoddi Ffactor Ymchwiliol
- Ystadegau casgliadol (h.y. ANOVA ac atchweliad)
- Opsiynau amgen amharametrig
- Adolygu seiliau athronyddol dulliau ymchwil
- Ystyriaethau moesegol

### Llyfryddiaeth Ddangosol

Nodwch fod y gwaith darllen hanfodol a gwaith darllen dangosol arall yn amodol ar adolygiad a diweddariad blynyddol.

**Gwaith Darllen Hanfodol:**

Field, A. (2024). Discovering statistics using IBM SPSS statistics (6th ed.). London: Sage

Sullivan, C., & Forrester, M. A. (Eds.). (2018). Doing qualitative research in psychology: A practical guide (2nd Ed.). SAGE.

Willig, C. (2022). Introducing qualitative research in psychology (4th ed.). Open University Press.

**Gwaith Darllen dangosol arall**

Bourne, V. (2017). Starting out in methods and statistics for psychology: A hands-on guide to doing research. Oxford University Press.

Braun, V. & Clarke, V. (2013). Successful qualitative research: A practical guide for beginners. SAGE.

Horst, J.S., (2015). The psychology research companion: From student project to working life. Routledge.

**Gellir canfod rhai adnoddau Cymraeg yn www.porth.ac.uk, sef porth adnoddau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.**

### Administrative Information

| **For office use only** | |
|---|---|
| Initial approval date | April 2026 |
| With effect from date | September 2026 |
| Date and details of revision | |
| Version number | 1 |